# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Abergwaun**

**Canolfan Hamdden Abergwaun**
**Abergwaun**
**SA65 9DT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/01/2020

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Abergwaun yn darparu gofal sesiynol ar gyfer uchafswm o 24 o blant o ddwy flwydd oed. Mae'n gweithredu o neuadd chwaraeon yng Nghanolfan Hamdden Abergwaun, Abergwaun. Mae'n gweithredu rhwng 9am a 12pm o ddydd Llun i ddydd Iau, yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Caiff y Cylch Meithrin ei ariannu i ddarparu gofal i blant tair oed ac o ganlyniad, caiff ei arolygu gan Estyn. Christopher Sheldon yw'r unigolyn cofrestredig a Samantha Watson yw'r person â chyfrifoldeb. Cymraeg yw iaith y gofal.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Datblygiad | Da |
| Yr Amgylchedd | Digonol |
| Arwain a Rheoli | Digonol |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

### 1. Asesiad cyffredinol

Gwelsom fod y plant sy'n mynychu Cylch Meithrin Abergwaun yn hapus ac wedi setlo'n dda. Maent yn cael gofal gan staff magwrus a brwdfrydig sy'n ymrwymedig i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'n amlwg bod y plant yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Nid oes ardal ddynodedig yn yr awyr agored, ond mae neuadd chwaraeon fawr ar gael i'r gwasanaeth ei defnyddio. Mae'r rhieni'n hapus iawn â chynnydd eu plant a'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Mae angen rhai gwelliannau o ran recriwtio staff a hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru am newidiadau i amseroedd agor y gwasanaeth.

### 2. Gwelliannau

Dim

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi hysbysu'r unigolyn cofrestredig bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas ag addasrwydd gweithwyr a darparu gwybodaeth er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid oes hysbysiad wedi'i gyflwyno y tro hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yng Nghylch Meithrin Abergwaun yn gwneud dewisiadau, gwrandewir arnynt ac maent yn cael cyfleoedd da i fod yn annibynnol. Maent yn hapus, yn ddiogel ac yn mwynhau'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

### Ein canfyddiadau

Ar ôl cyrraedd y gwasanaeth, dewisodd y plant o blith amrywiaeth o weithgareddau'n hyderus, megis chwarae rôl, toes chwarae, edafu, adeiladu a'r cafn tywod. Roedd y plant yn amlwg yn gyfarwydd â'r drefn a gwnaethant chwarae'n hapus tan amser cylch. Roedd nifer o gyfleoedd i'r plant leisio eu barn a gwneud dewisiadau personol yn ystod y sesiwn. Roedd y plant yn dewis sut i gyfarch ei gilydd ar ddechrau'r sesiwn, fel ysgwyd dwylo, gwenu, cofleidio neu roi pawen lawen. Roeddent yn dewis pa ganeuon i'w canu yn ystod amser cylch ac yn dewis o blith amrywiaeth o gardiau gweithgaredd.

Roedd y plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u cyfoedion a'r staff. Eisteddodd un plentyn ar lin aelod o'r staff wrth iddo ddarllen stori yn y gornel ddarllen. Aeth y plant at y staff i gael eu cofleidio sawl gwaith yn ystod ein hymweliad, cyn dychwelyd i chwarae'n hapus. Gwnaethant ddangos yr hyn roeddent wedi bod yn ei wneud yn hyderus i'r staff. Er enghraifft, adeiladodd un plentyn dŵr uchel a galwodd yn gyffrous ar aelod o'r staff i ddod ato i edmygu ei waith. Roedd y plant yn cyd-chwarae'n naturiol ac yn cymryd troeon, er enghraifft, wrth wthio ceir i lawr ramp. Roeddent yn dangos dychymyg wrth gyd-chwarae â teganau byd bach ac yn defnyddio eu cymeriadau i ganu cloch y drws, wrth i blentyn arall ddefnyddio ei gymeriad i ateb y drws. Roedd y plant yn canu'n hapus iddynt eu hunain wrth iddynt chwarae ac roedd eraill yn ymlacio ar fag ffa mawr.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd y plant yn chwarae ar eu pen eu hunain, ochr yn ochr â'i gilydd, mewn parau ac mewn grwpiau bach. Roeddent yn rhannu adnoddau, er enghraifft, yn y cafn tywod ac wrth chwarae â'r toes chwarae. Roedd y plant yn trin y doliau'n garedig, gan ddarllen straeon iddynt, rhoi cusan iddynt, eu cofleidio a'u bwydo. Yn ystod amser byrbryd, gofynnodd un o'r plant i'w ffrind, "Do you want more?" cyn rhoi darnau o afal i'w ffrind. Roedd y plant yn gofyn yn hyderus i'w ffrindiau am help, er enghraifft, gwnaethant ofyn am help i arllwys llaeth i mewn i gwpan yn ystod amser byrbryd. Roedd eu ffrind yn gwenu'n hapus wrth helpu.

Roedd y plant yn archwilio eu hamgylchedd yn ddirwystr ac yn cario teganau o un ardal i'r llall yn hyderus. Roeddent yn gwthio troliau'n brysur o amgylch yr ystafell cyn mynd i'r siop chwarae rôl. Yn ystod amser cylch, trafododd y plant y tywydd yn hapus, gan osod y symbolau cywir ar fwrdd. Gwnaethant ymuno'n frwdfrydig wrth adrodd diwrnodau'r wythnos a chanu caneuon actol. Roedd y plant yn gallu cyfrif yn ôl o bump ac roedd y plant hŷn yn gallu cyfrif nifer y plant a oedd yn bresennol. Roedd y plant yn llawn cyffro wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd didoli siapiau, gan osod eu siapiau 2D yn y man cywir. Gwnaethant gymryd rhan frwd mewn gweithgaredd printio tatws a oedd yn atgyfnerthu'r broses o

ddysgu enwau siapiau, gan ofyn am fwy o bapur er mwyn gallu gwneud mwy o waith printio.

Roedd digon o gyfleoedd i'r plant fod yn annibynnol. Er enghraifft, wrth iddynt gyrraedd y gwasanaeth, roedd y plant yn hunangofrestru. Roedd y plant yn golchi ac yn sychu eu dwylo'n annibynnol cyn amser byrbryd ac ar unrhyw adeg a oedd yn briodol, yn eu barn nhw. Er enghraifft, golchodd rhai o'r plant eu dwylo ar ôl chwarae â thywod, toes chwarae a phaentio. Gosododd y plant eu cadeiriau mewn cylch ar gyfer amser cylch ac o amgylch byrddau bach ar gyfer amser byrbryd. Dosbarthodd 'helpwyr y dydd' blatiau a chwpanau yn ystod amser byrbryd a gwnaethant olchi a sychu'r llestri a ddefnyddiwyd ar ddiwedd amser byrbryd. Arllwysodd pob plentyn ei laeth neu ei ddŵr ei hun a thaenu menyn ar ei fara crimp. Aethant â'r cwpan a'r plât a ddefnyddiwyd ganddynt i'r man golchi llestri dynodedig. Roedd 'helpwyr y dydd' yn gyfrifol am alw enwau'r plant wrth i'w rhieni gyrraedd i'w casglu. Llwyddodd pob plentyn i ddod o hyd i'w fag yn annibynnol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r staff yn ymrwymedig i ddarparu gweithgareddau amrywiol ac ysgogol i'r plant. Maent yn sicrhau bod y plant yn ddiogel, yn iach a bod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu. Mae'r staff yn trin y plant yn annwyl ac yn eu canmol yn rheolaidd.

### Ein canfyddiadau

Roedd y staff yn gwybod bod diogelu plant yn flaenoriaeth uchel ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o ddelio â phryderon neu ddatgeliadau pan roddwyd senarios gwahanol iddynt. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf pediatreg diweddaraf ac roedd gweithdrefnau clir ar waith i ymdrin â digwyddiadau. Roedd y staff a'r rhieni'n llofnodi cofnodion damweiniau a digwyddiadau. Roedd y staff yn sicrhau bod y plant wedi golchi eu dwylo cyn cael byrbryd. Roedd y staff yn golchi eu dwylo ac yn gwisgo menig a ffedog wrth baratoi byrbrydau. Roedd y byrddau'n cael eu sychu â chwistrell gwrthfacterol cyn i'r plant eistedd i gael eu byrbryd. Nid oedd gan y gwasanaeth ardal ddynodedig yn yr awyr agored ond roedd yn defnyddio hanner y neuadd chwaraeon fawr ar gyfer gweithgareddau fel reidio beiciau cydbwyso a gemau parasiwt. Mae'r plant yn glanhau eu dannedd yn y gwasanaeth fel rhan o gynllun brwsio dannedd cenedlaethol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd y staff yn canmol y plant am ymddwyn yn dda ac yn ymateb i'r plant a oedd am gael eu cofleidio neu am gael sicrwydd. Er enghraifft, dywedodd y staff "Da iawn" wrth i'r plant rannu adnoddau yn y tywod ac roeddent yn fwy na pharod i gofleidio'r plant a ddaeth atynt i gael sicrwydd. Roeddent yn cydymffurfio â'u polisi ymddygiad gan ymddwyn fel modelau rôl da, gan siarad yn gwrtais ac yn garedig â'i gilydd a'r plant. Roedd y staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant ar lefel briodol drwy gydol ein hymweliad. Er enghraifft, roeddent yn eistedd ar fagiau ffa yn y gornel ddarllen wrth ddarllen stori, ar gadeiriau bach yn ystod gweithgaredd paentio ac yn penglinio ar y llawr yn y siop chwarae rôl.

Roedd y staff yn rhoi egwyddorion y cyfnod sylfaen ar waith. Er nad oedd unrhyw ardaloedd parhaol, gan fod yn rhaid clirio'r teganau a'r cyfarpar ar ddiwedd pob sesiwn, roedd yr arweinwyr wedi creu cornel ddarllen a siop chwarae rôl. Roeddent yn defnyddio cardiau gweithgaredd â lluniau o'r amrywiol weithgareddau a oedd ar gael i'r plant ac yn rhoi cyfle i'r plant ddewis pa deganau a gweithgareddau a fyddai'n dod allan o'r cwpwrdd storio. Roedd y staff yn cynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar thema fel siapiau ac yn cynllunio gweithgareddau fel printio tatws a didoli siapiau. Roedd y staff yn defnyddio asesiad llinell sylfaen pan oedd y plant yn dechrau yn y gwasanaeth ac yn olrhain eu datblygiad ym meysydd y cyfnod sylfaen. Roedd plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hatgyfeirio i asiantaethau allanol fel therapi lleferydd ac iaith, yn ôl yr angen.

## 3. Yr Amgylchedd Digonol

**Crynodeb**

Mae'r amgylchedd yn galluogi'r plant i chwarae mewn ardal ddiogel gydag amrywiaeth o gyfleoedd ac adnoddau. Mae'r ystafell fawr wedi'i threfnu i fodloni meysydd dysgu'r cyfnod sylfaen cyn belled ag y bo'n bosibl ond nid oes unrhyw ardaloedd parhaol. Caiff y neuadd chwaraeon fawr ei rhannu'n ddau er mwyn i'r plant allu defnyddio un ardal ar gyfer sgiliau echddygol bras gan nad oes gan y gwasanaeth ardal ddynodedig yn yr awyr agored. Mae gardd gymunedol ar gael i'r gwasanaeth ei defnyddio.

**Ein canfyddiadau**

Roedd y drws i'r neuadd ar glo bob amser ac roedd llyfr ymwelwyr yn cael ei ddefnyddio. Roedd cofnodion yn dangos tystiolaeth bod asesiadau risg rheolaidd yn cael eu cynnal o'r gwasanaeth, a bod ymweliadau yn cael eu cynnal â'r gymuned. Roedd y staff yn cadw'r safle yn lân ac yn clirio popeth ar ddiwedd y sesiwn. Mae grwpiau eraill yn y gymuned hefyd yn defnyddio'r ystafell fel cyfleuster hamdden. Roedd y cyfarpar trydan yn cael profion PAT ac roedd y cyfarpar glanhau'n cael ei gadw mewn cwpwrdd yn y gegin na allai'r plant fynd ato. Roedd y gwasanaeth wedi cael sgôr o 5 ar gyfer hylendid bwyd. Cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd. Mae gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd gyfredol. Roedd y cyfarpar diffodd tân a'r system gwresogi yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd yr arweinwyr wedi defnyddio byrddau mawr y gellir eu symud er mwyn rhannu'r neuadd chwaraeon fawr yn ddau. Roedd hanner y neuadd chwaraeon yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau sgiliau echddygol bras ac ar gyfer amser byrbryd. Roedd hanner arall yr ystafell yn cael ei threfnu'n ardaloedd chwarae i'r plant, fel cornel ddarllen, ardal chwarae rôl, ardal adeiladu ac ardal chwarae creadigol. Roedd y byrddau y gellir eu symud wedi'u haddurno'n lliwgar gan arddangos rhifau, lliwiau a gwaith celf. Er nad oedd cynllun y neuadd yn golygu y gallai'r plant gael gafael ar yr holl adnoddau a oedd ar gael iddynt yn annibynnol, roedd y staff yn defnyddio cardiau llun er mwyn i'r plant allu dewis beth i'w chwarae. Roedd y plant yn defnyddio toiledau'r neuadd chwaraeon yr oedd yn hawdd eu cyrraedd yn uniongyrchol o'r neuadd. Roedd toiledau bach ar gael iddynt ac roedd grisiau er mwyn iddynt ddefnyddio'r sinciau. Roedd cyfleusterau newid cewynnau ar gael.

Roedd yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd da ac yn addas at y diben. Roedd y staff wedi darparu dodrefn o faint sy'n addas i blant er mwyn galluogi'r plant i eistedd wrth fyrddau'n annibynnol a chael gafael ar deganau a chyfarpar. Roedd yr adnoddau a'r cyfarpar mewn cyflwr da ac yn lân. Roedd digon o adnoddau i'r plant ddewis ohonynt. Roedd cyflenwadau digonol o nwyddau fel paent, glud, gliter, papur sidan a chreonau. Roedd y teganau'n cael eu storio mewn cwpwrdd mawr y gellid cerdded i mewn iddo ac yn cael eu tynnu allan o'r cwpwrdd wrth ystyried thema benodol neu pe byddai'r

plant yn gofyn amdanynt. Roedd llyfrau a theganau amlddiwylliannol ar gael ac yn cael eu defnyddio wrth edrych ar thema benodol, fel Diwali.

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 4. Arwain a Rheoli **Digonol**

**Crynodeb**

Mae’r arweinwyr yn creu ethos cadarnhaol ac wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni. Mae'r arweinwyr yn recriwtio staff sydd â chymwysterau addas, ond nid yw ffeiliau pob aelod o'r staff yn gyflawn. Maent yn gwerthuso'r gwasanaeth er mwyn gwella. Mae'r arweinwyr wedi gwneud newidiadau i oriau agor y gwasanaeth ond nid ydynt wedi rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn rhoi polisïau'r gwasanaeth, fel y polisi ymddygiad cadarnhaol, ar waith yn llawn. Roedd y polisïau yn cael eu hadolygu bob blwyddyn ac roedd y datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth yn briodol. Roedd gan y staff gydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni, a roddodd adborth cadarnhaol ar y gwasanaeth. Roedd y tîm o staff yn cydweithio'n dda.

Mae'r arweinwyr yn adolygu'r gwasanaeth bob blwyddyn ac roeddent wrthi'n llunio adroddiad. Roedd yr holiaduron a ddychwelwyd gan y rhieni yn gadarnhaol, gan nodi sylwadau fel “My child is very happy at cylch due to the hard work and professionalism of the staff.”

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) y staff yn gyfredol. Roedd gan y staff gymwysterau addas ac roedd pob aelod o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant amddiffyn plant. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf paediatrig a hylendid bwyd. Nid oedd ffeiliau pob aelod o'r staff yn cynnwys yr holl ddogfennau angenrheidiol na geirdaon. Ymdriniodd yr arweinwyr â hyn ar unwaith a rhoddwyd geirdaon yn y ffeil. Roedd arfarniadau blynyddol sylfaenol a sesiynau goruchwylio yn cael eu cynnal.

Roedd y rhieni a'r gofalwyr yn y gwasanaeth yn siarad yn gadarnhaol am y gwasanaeth a'r staff. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn fodlon â'r wybodaeth a gawsant am y gwasanaeth cyn i'w plant ddechrau yn y gwasanaeth. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am ddatblygiad eu plant. Roedd gan y gwasanaeth gysylltiadau da â'r gymuned, gan ymweld â chartref yr henoed, y llyfrgell, y traeth, yr orsaf dân a'r siop leol. Roedd digwyddiadau codi arian fel dosbarth Zumba, gwerthiannau cist ceir a noson bastai yn cael eu cefnogi'n dda gan y rhieni a'r gymuned leol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell y dylai'r arweinwyr hysbysu AGC am newidiadau i amseroedd agor y gwasanaeth.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 16 Ionawr 2020 am gyfnod o 3.5 awr. Rhoddwyd adborth dros y ffôn yn ddiweddarach. Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau gan gynnwys ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant, cofnodion hyfforddi, cofnodion damweiniau a chofnodion cynllunio
- arsylwi ar y plant gan ddefnyddio adnodd SOFI (fframwaith arsylwi byr ar gyfer arolygu) er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff
- siarad â'r person â chyfrifoldeb, y rhieni, y gofalwyr, y staff a'r unigolyn cofrestredig.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Unigolyn Cyfrifol | Christopher Sheldon |
| Person â chyfrifoldeb | Samantha Watson |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 24 |
| Ystod oedran y plant | 2-5 oed |
| Oriau agor | 9am-12pm o ddydd Llun i ddydd Iau |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Tachwedd 2017 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 16 Ionawr 2020 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy. Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/03/2020